

PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2013

YN BRESENNOL:

Aelodau Annibynnol

Mr. Michael Wilson(Cadeirydd)
Mr. Islwyn Jones (Is-Gadeirydd)

Mrs. Denise Harris Edwards
Mr. Leslie Lord
Mrs. Dilys Shaw

Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref/Cymuned

Cynghorydd John Roberts

WRTH LAW:

Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddiaeth/Swyddog Monitro),
Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (ar gyfer eitem 10(b),
Rheolydd y We a Gwybodaeth Corfforaethol (PA) (ar gyfer eitem 3),
Swyddog Gwybodaeth Corfforaethol (HP) (ar gyfer eitem 11),
Swyddog Gofal Cwsmer (BJ) (ar gyfer eitemau 5, 6 a 7),
Uwch Swyddog Datblygu Adnoddau Dynol (MW) (ar gyfer eitem 4),
Swyddog Pwyllgor (MEH).

HEFYD YN BRESENNOL: Dim

YMDDIHEURIADAU:

Y Cynghorydd Ieuan Williams (Yn cynrychioli'r Cynor Sir),
Y Cynghorydd Raymond Evans (Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref a
Chymuned).

Roed yr Aelodau'n dymuno adferiad iechyd llwyr a buan i Mr. Raymond Evans a oedd yn yr ystybyd.

1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

2 COFNODION Y CYFARFOD

Dyweddodd y Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddiaeth) / Swyddog Monitro bod y Pwyllgor Safonau (Gwrandawriad) yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2013 wedi mabwysiadu'r cofnodion ond wedi gohirio ystyried y materion oedd yn codi ar eitemau 7 i 10.

MATERION YN CODI

7. Penderfyniad y Panel Dyfarnu ynglŷn ag Apêl

Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad llafar ar ei deimladau yn dilyn ei gyfarfod ef a'r Is-Gadeirydd gydag Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol yn ddiweddar. Dywedodd ei fod yn falch o allu adrodd i Arweinyddion y Grwpiau fynegi barn hollol gadarnhaol ynglŷn â gwaith y Pwyllgor Safonau.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

GWEITHREDU : Bod cyfarfod yn cael ei drefnu gyda Chadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Safonau ac Arweinyddion y Grwpiau yn dilyn Etholiadau'r Cyngor Sir ym Mai.

8 (b) Cyflwyno Adolygiadau Datblygiad Personol i Aelodau

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddiaeth) / Swyddog Monitro bod y Pwyllgor wedi ceisio gweld a allai hyfforddiant fod yn orfodol i'r Pwyllgor Archwilio. Dywedodd y Swyddog nad oes unrhyw ofnion penodol yn y cyfarwyddyd i ganiatáu hyfforddiant gorfodol. Fodd bynnag, fe allai'r Pwyllgor Safonau argymhell y dylai hyfforddiant fod yn orfodol fel sydd wedi ei nodi yn y Côd Ymddygiad ar gyfer Pwyllgorau Cynllunio a Gorchmynion a Thrwyddedu.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

GWEITHREDU : Bod eitem yn cael ei rhoi gerbron cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau yn y dyfodol o safbwynt y trafodaethau sydd eu hangen ynglŷn â hyfforddiant gorfodol ar gyfer aelodau'r Pwyllgor Archwilio.

9. Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru

Nododd y Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddiaeth) / Swyddog Monitro bod gwahoddiad yn awr wedi ei roi i gynrychiolwyr o Swyddfa Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru i fynychu'r cyfarfod nesaf o Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

GWEITHREDU : Dim.

10. Newidiadau Arfaethedig i'r Cyfansoddiad / Protocolau

Nododd y Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddiaeth) / Swyddog Monitro bod newidiadau bellach wedi eu cytuno gyda'r Swyddogion perthnasol a'r Is-Gadeirydd parthed newidiadau i 5.3.17 y Cyfansoddiad.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

GWEITHREDU : Bod y newidiadau yn 5.3.17 y Cyfansoddiad yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor Sir ar unwaith.

3 CYHOEDDI COFRESTRAU STATUDOL AR-LEIN

Cyflwynwyd - adroddiad gan Reolwr y We a Gwybodaeth Gorfforaethol ynglŷn â chynnydd, gweithrediad a hyfforddiant cynefino y bwriedir ei gynnal ar gyfer Aelodau newydd a'r rheini sy'n dychwelyd.

Dywedwyd y bydd y Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch ar gael ar lein o 1 Mawrth 2013 ac y bydd yn cael ei hychwanegu at y system Modern.Gov fel y gall y cyhoedd ei gweld. Bu'r Gofrestr Safonol o ddiddordebau ar-lein ers dechrau mis Ionawr 2013 a bydd yr holl Aelodau o'r Cyngor Sir a gânt eu hethol yn dilyn etholiadau mis Mai yn derbyn hyfforddiant ar sut i ddiweddarau'r fersiwn ar-lein.

Nodwyd ymhellach bod rhaglenni a phapurau'r Pwyllgorau wedi bod yn cael eu cyhoeddi ar y rhyngwrwyd gan yr Adain Gwasanaethau Pwyllgor ers dechrau mis Ionawr. Bydd pob datganiad o ddiddordeb mewn cyfarfodydd yn cael eu hychwanegu ar wahân i'r system Modern.Gov a bydd hynny yn caniatáu i'r cyhoedd chwilio am unrhyw Aelod unigol. Bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu i'r holl Aelodau etholedig ar ôl etholiad y Cyngor Sir ym Mai 2013 a hynny fel rhan o'u rhaglen hyfforddiant.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddiaeth) / Swyddog Monitro y bydd yn rhaid cyhoeddi datganiad yn y wasg yn dweud y bydd y cofrestrau a enwyd yn yr adroddiad hwn i'w gweld ar-lein.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

GWEITHREDU : Bod adroddiad diweddarau'n cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Safonau parthed y cynnydd gyda chyhoeddi'r Cofrestrau Statudol ar-lein.

4 CYNLLUN DATBLYGU AELODAU AC ADOLYGIADAU DATBLYGIAD PERSONOL

Rhoddodd yr Uwch Swyddog Datblygu adroddiad ar y Cynllun Datblygu Aelodau a'r Adolygiadau Datblygiad Personol. Nodwyd mai'r bwriad yw cael hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad i Aelodau Etholedig newydd yn dilyn etholiadau'r Cyngor Sir ym Mai 2013.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddiaeth) / Swyddog Monitro y bydd y Cynllun Hyfforddi 12 mis i Aelodau yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ym Mai gan Gadeirydd y Gwasanaethau Democritaidd. Roedd yn ystyried y dylid rhoi eitem safonol ar raglen y Pwyllgor Gwasanaethau Democritaidd yng nghyswllt yr Adolygiadau Datblygiad Personol.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad a gofyn i Bennaeth y Gwasanaethau Democritaidd roi eitem safonol ar raglen y Pwyllgor Gwasanaethau Democritaidd yn ymwneud â'r Adolygiadau Datblygiad Personol.

GWEITHREDU : Fel a nodir uchod.

5 PROSIECT RHEOLI CWYNION

Cyflwynwyd – adroddiad diweddarau gan y Swyddog Gofal Cwsmer ar statws presennol y Prosiect Rheoli Cwynion.

Nodwyd bod y Polisi Pryderon a Chwynion a'r Polisi Ymddygiad Annerbyniol gan Achwynwr wedi eu cyflwyno i'r Cyngor llawn ar 5 Mawrth 2013 i'w mabwysiadu. Cynhelir Archwiliad Mewnol ar weithrediad y Polisi Pryderon a Chwynion yn Ebrill 2013 ac wedyn ymhen 6 mis gyda phwyslais arbennig ar sicrhau bod adrannau'n cofnodi cwynion yn y ffordd gywir. Bydd y Rheolwr Archwilio Mewnol yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Safonau yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr yng nghyswllt adolygiad archwilio o'r Polisi Cwynion.

Cododd yr Aelodau faterion yn ymwneud â thaliadau iawndal yng nghyswllt cwynion yn erbyn y Cyngor Sir a lefel y taliadau a roddwyd. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddiaeth) / Swyddog Monitro bod y Polisi iawndal fel yr argymhellwyd gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys disgwyliad y bydd Cymal iawndal yn cael ei gynnwys yn y Polisi. Bydd y Pennaeth Gwasanaeth yn yr adain lle cododd yr anghydfod yn penderfynu beth fydd lefel y taliad iawndal mewn ymgynghoriad gyda'r Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

GWEITHREDU : Bod y Rheolwr Archwilio Mewnol yn cael ei wahodd i'r Pwyllgor Safonau ym mis Rhagfyr yng nghyswllt adolygiad archwilio ar y Polisi Cwynion.

6 CWYNION AM YMDYGIAD I'R OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU – 6(A)

Cyflwynwyd, er gwybodaeth – adroddiad gan y Swyddog Gofal Cwsmer ar ffurf matrices wedi ei ddiweddarau i Gynghorwyr Sir.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

GWEITHREDU : Diweddariad ar unrhyw ddatblygiadau pellach gan y Swyddog Gofal Cwsmer yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Safonau.

6(b) Cyflwynwyd, er gwybodaeth – adroddiad gan y Swyddog Gofal Cwsmer ar ffurf matrices wedi ei ddiweddarau i Gynghorau Tref a Chymuned.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

GWEITHREDU : Diweddariad ar unrhyw ddatblygiadau pellach gan y Swyddog Gofal Cwsmer yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Safonau.

7 CRYNODEB O BENDERFYNIADAU'R PANEL DYFARNU

Cyflwynwyd a nodwyd – adroddiad gan y Swyddog Gofal Cwsmer mewn perthynas â'r uchod. Dywedwyd na chafwyd gwybod am unrhyw achosion newydd.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

GWEITHREDU : Ceir diweddariad ar unrhyw ddatblygiadau pellach gan y Swyddog Gofal Cwsmer yn y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Safonau.

8 CYNHADLEDD GENEDLAETHOL Y PWYLLGORAU SAFONAU

Cyflwynwyd, er gwybodaeth – Rhaglen y Gynhadledd a Rhestr o'r sawl sydd wedi eu henwebu i fynychu Cynhadledd Safonau Cymru sydd i'w chynnal yn Venue Cymru Llandudno ar 19 Ebrill 2013.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

GWEITHREDU : Bod unrhyw lefydd ychwanegol yn y Gynhadledd yn cael eu dyrannu i Aelodau'r Pwyllgor Safonau nad ydynt wedi eu henwebu i fynychu.

9 NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD FEL Y PENDERFYNWYD ARNYNT GAN Y CYNGOR LLAWN AR 5 MAWRTH, 2013 - 9(A)

9(a) Cyflwynwyd er gwybodaeth – adroddiad ar y newidiadau i'r Cyfansoddiad.

Cyfeiriodd y Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddiaeth) / Swyddog Monitro at y prif newidiadau Cyfansoddiadol i wella'r ffordd y bydd y Cyngor newydd yn gweithio ar ôl 2 Mai 2013, ond yn arbennig i gymryd i ystyriaeth bwysau gwaith corfforaethol a'r nifer lai o aelodau. Roedd y newidiadau yn ymwneud â :-

Gwneud hyfforddiant i Aelodau ar y Côd Ymddygiad yn orfodol;
Lleihau nifer y Pwyllgorau Sgriwtini o 5 i 2;
Gostwng y niferoedd ar y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion (a Thrwyddedu) o 14 i 11;
Gostwng Aelodaeth y Cyngor Sir ar y Pwyllgor Archwilio o 10 i 8;
Lleihau'r nifer ar y Pwyllgor Gwaith o 10 i 7 (i gynnwys yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd);
Mabwysiadu'r Protocol Perthynas Aelodau a Swyddogion yn dilyn ei adolygu;
Mabwysiadu'r protocol ar gyfer Wardiau Amlaelod.

PENDERFYNWYD nodi'r newidiadau i'r Cyfansoddiad fel y maent wedi eu nodi uchod.

GWEITHREDU : Nodi y bydd y newidiadau i'r Cyfansoddiad yn cael eu trafod yn y Pwyllgor Gwaith ar 18 Chwefror a gan y Cyngor Sir llawn yn ei gyfarfod ar 5 Mawrth 2013.

9(b) Cyflwynwyd er gwybodaeth – adroddiad ar y newid i'r Polisi Indemniadau.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddiaeth) / Swyddog Monitro bod Llywodraeth Cymru o blaid diwygio'r Polisi cyfredol i gyflwyno uchafswm cap o £20k yn yr achosion sy'n ymwneud ag amddiffyn cwynion i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Roedd yr Is-Gadeirydd yn ystyried bod angen diwygio 4.1 y Polisi i ddarllen '..... y dylai unrhyw indemniad a roddir i Aelod i amddiffyn honiadau o dorri neu doriadau yn y Côd Ymddygiad fod yn destun **uchafswm** cap o £20k.

Roedd y Cynghorydd John Roberts yn dymuno iddo gael ei gofnodi ei fod yn siomedig yn y fersiwn Gymraeg o lythyr y Gweinidog oedd ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.

GWEITHREDU : Bod y Polisi yn cael ei newid fel yn 4.1 uchod.

10 NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I'R CYFANSODDIAD - 10(A)

10(a) Cyflwynwyd - adroddiad ar 'Egwyddorion Cyffredinol am Brothocol wedi ei Adolygu ar gyfer Datrysiad Lleol'.

Adroddwyd bod y Pwyllgor Safonau, fel rhan o'i Raglen Waith am 2012/13, wedi adolygu'r Protocol cyffredol ac wedi cyflwyno argymhellion am newid. Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn cyflwyno'r Protocol i'r Pwyllgor Gwaith ac i'r Cyngor llawn.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

GWEITHREDU : Nodi y bydd y Protocol yn cael ei anfon ymlaen i'r Pwyllgor Gwaith i'w ystyried ac wedi hynny i'r Cyngor llawn.

10(b) Cyflwynwyd – adroddiad ar y 'Rheolau Gweithdrefn Gynllunio' ac i wneud newidiadau i'r Cyfansoddiad, Adran 4.6 i gymryd wardiau Amlaelod i ystyriaeth yn dilyn etholiadau'r Cyngor Sir 2013.

Bwriadwyd y newidiadau i fod yn rhai mor ganiataol ag sy'n bosibl i ganiatáu i unrhyw un o'r 'aelodau lleol' mewn ward newydd alw cais cynllunio yn y ward honno i mewn i'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a bydd y newidiadau yn caniatáu i unrhyw un neu i bob un o'r aelodau lleol yn y ward honno gael siarad yn y Pwyllgor ar y cais hwnnw fydd wedi ei alw i mewn, fel Aelod Lleol. Nodwyd y bydd y newidiadau hyn yn cael eu hanfon ymlaen i'w hargymhell gan y Pwyllgor Gwaith ac wedi hynny i'r Cyngor llawn.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

GWEITHREDU : Nodi y bydd y newidiadau i'r Rheolau Gweithdrefn Gynllunio yn cael eu hanfon ymlaen i'r Pwyllgor Gwaith i'w hystyried ac wedi hynny i'r Cyngor llawn.

11 PROTOCOL DRAFFT AR DDEFNYDDIO CYFRYNGAU CYMDEITHASOL MEWN CYFARFODYDD

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol ar y Protocol Cyfryngau Cymdeithasol drafft i Aelodau y bwriedir iddo reoleiddio'r defnydd a wneir o gyfryngau cymdeithasol gan Aelodau etholedig yn swyddogol ac yn breifat. Mae'r protocol hefyd yn ymwneud â'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol mewn cyfarfodydd gan y cyhoedd.

Dywedwyd mai bwriad y protocol oedd nodi'n glir sut y dylai Aelodau Etholedig ryngweithio gyda chyfryngau cymdeithasol, fel Cynghorwyr Sir ac unigolion. Mae'r protocol hefyd yn ymwneud â'r defnydd a wneir o gyfryngau cymdeithasol gan aelodau o'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfodydd o'r Cyngor, y Pwyllgor Gwaith a chyfarfodydd Pwyllgorau eraill. Mae mater caniatáu defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ystod cyfarfodydd y Cyngor gan newyddiadurwyr a'r cyhoedd yng Nghymru yn rhan o drafodaeth sydd yn parhau. Roedd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi ysgrifennu'n ddiweddar at Awdurdodau Lleol Cymru i fynegi ei gefnogaeth i wella tryloywder y gweithgareddau trwy hyrwyddo mynediad ar-lein. Fodd bynnag, pwysleiswyd y gallai defnydd amhriodol o gyfryngau cymdeithasol gan Aelodau etholedig olygu o bosib torri'r Côd Ymddygiad. Felly, mae'n bwysig bod Aelodau etholedig yn cydnabod y risgiau sy'n gysylltiedig â'r cyfryngau cymdeithasol ac yn sicrhau nad ydynt yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol mewn ffordd sy'n torri'r Côd Ymddygiad.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor o'r farn y dylid rhoi ystyriaeth i'r ffaith y gallai defnydd o, e.e. 'Trydar' mewn cyfarfod dynnu sylw aelodau oddi wrth y cyfarfod ac yn arbennig felly, y ffaith y gallai gwybodaeth anghywir gael ei thrydar drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Ystyriwyd mai ychydig iawn o ddefnydd y dylid ei wneud o ddyfeisiau symudol mewn cyfarfodydd ac y dylai'r defnydd hwnnw gael ei wneud mewn modd nad yw'n rhy amlwg.

Dyweddod y Pennaeth Swyddogaeth (Cyfreithiol a Gweinyddiaeth) / Swyddog Monitro bod bid wedi ei hanfon i Lywodraeth Cymru am gyllid ar gyfer Gweddarlledu mewn cyfarfodydd. Rhagwelir y bydd y cais yn llwyddiannus a'r bwriad yw cael cynllun peilot gyda gweddarlledu mewn rhai cyfarfodydd o'r Cyngor Sir. Bydd angen hefyd ystyried cyflwyno gweddarlledu o bell. Yn unol â'r gofynion a oedd ynghlwm â darparu'r cyllid, dywedodd y Swyddog ymhellach y bydd raid sefydlu trefniadau gweddarlledu mewn Cynghorau Tref/Cymuned a hynny ar Sail Genedlaethol.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad mewn egwyddor.

GWEITHREDU : Nodi y bydd y protocol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith i'w ystyried.

12 RHAGLEN WAITH 2012/13

Cyflwynwyd a derbyniwyd – Rhaglen Waith ar gyfer 2012/13.

**MR. MICHAEL WILSON
CADEIRYDD**